Minutes of the **Planning & Amenities Committee** held at Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 17 December 2018** at 6.30 p.m.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **PRESENT :-** | His Worship the Mayor, Councillor J Wynn Jones | | | |
| | Deputy Mayor, Councillor John Wyn Williams | | | |
| | Councillors | G O Roberts (Chairman) | Ifan James | J M Martin |
| | | Les Day | Keith Jones | Gareth Roberts |
| | | Dylan Fearnley | Colin King | Elin Walker Jones |
| | | Derek Hainge | | |
| | Officer : | Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer | | |

**151/18 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Medwyn Hughes, Owen Hurcum, Enid Parry, Salik Rahman, Mair Rowlands, Luke Tugwell, and Huw Wyn Jones.

**152/18 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None.

**153/18 URGENT BUSINESS**

The Mayor informed the Committee of the death of a former Councillor and Mayor Geraint Huws Roberts. Councillors stood in silence as a tribute to Mr Williams.

(i) National Eisteddfod Venue: The Mayor detailed a letter received from Caernarfon Town Council requesting the City Council's support in the bid to host the 2021 National Eisteddfod in Caernarfon. **RESOLVED**: that the City Council write a letter of support.

(ii) The Mayor congratulated all the people involved in arranging the Christmas Food Festival on Sunday 16 December. It was noted that there was a lack of Welsh language in the adverts.

(iii) The Town Clerk informed Members that the tenants of the 1st and 2nd floor of the City Council Offices had vacated the premises although the rental agreement still had several months to run.

(iv) The Town Clerk gave details of the City Council's business closure over the Christmas period.

(v) Abbey Road Centre: A request had been received for the organisation to attend a Council Meeting to give a presentation. However, the request had come from the Centre's Manager who had now left. The Town Clerk would contact the organisation to ascertain whether it still wished to attend a meeting.

(vi) The Town Clerk reported that Gwynedd Council had requested an extension to the Public Toilet Partnership Scheme for the next two years with contributions being paid annually. **RESOLVED:** that this arrangement be agreed and that budget provision be made over the next two years.

(vii) Concern was expressed at the lack of a One Stop Shop in Bangor and the Town Clerk was asked to record the number and nature of enquiries received in the office which were directly attributable to Gwynedd Council.

(Councillor Les Day left the proceedings at this point)

**154/18 PRESENTATION BY SHARI LLYWELYN –** Creative Producer, Pontio

Shari had stepped in as a substitute for Elen ap Roberts, Artistic Director to make a presentation to the City Council.

Shari concentrated on how Pontio interacts with Bangor community, students and communities outside of Bangor. Pontio aimed to engage with all people and organisations particularly with education, art, culture, projects and anti-social groups. Its work also included children and schools and a very popular event every two years – the Circus Festival.

The Chairman and Members thanked Shari for the interesting and useful presentation.

**155/18 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below:-

**C18/1044/11/AC** Discharge conditions 3 & 4 on planning application C18/0515/11/LL regarding proposed finishes to front elevation of building and screen on the rear elevation. 274 – 276 High Street. **No objection.**

**C18/1087/11/LL** Conversion and change of use of first and second floors to 4 living units together with creation of new shop fronts. 196 -200 High Street. **No objection.**

**C18/1092/11/CR** Internal and external alterations to create 3 shops and 4 living units. 196 -200 High Street. **No objection.**

**C18/1108/11/LL** Change of use from offices to beauty salon together with external alterations. Yr Hen Efail, Sackville Road. **No objection.**

**C18/0953/11/CC** Works to trees subject to a Tree Preservation Order. 27 Bryn Adda. **No objection.**

**156/18 BANGOR IMAGE MEETING**

The Mayor, as Chair of the Group reported on the activities and proceedings of recent meetings:-

- High Street environmental works
- Litter Warden funded by Gwynedd Council for 2018/19
- Recycling Bins (being assessed by Gwynedd Council's Scrutiny Committee
- Plastic-free Bangor
- 5 live projects currently, several others on the list
- Representation

**157/18 ANGLESEY & GWYNEDD (JLDP)** Public Consultation Supplementary Planning Guidance

The Town Clerk reported details of the current consultation. Members were asked to submit any comments to the Town Clerk before the closing date for a response to be sent on behalf of the City Council.

**158/18 CCTV**

The Town Clerk reported the Gwynedd Council had submitted proposals to change the CCTV system from the current analogue series to PTZ (Pan, Tilt, Zoom) cameras. The System is 20 years old and due an update introducing new digital high definition technology.

The drawback would be the annual cost of the system for the City Council currently £12K : proposed £42K. The Town Clerk has asked for details of the cost effectiveness i.e. statistics for each cameras assisting with crime prevention and detection, however there were no details available.

Members expressed concern as to the increased costs and whether there were other ways of assisting the Police and protecting the public.

**RESOLVED:** that i) the budget be allowed to increase slightly but not to fund the proposals; and ii) the Operations Manager of the Municipal Works Unit at Gwynedd Council be invited to a meeting in the New Year to discuss the details.

**159/18 HIGHWAY MATTERS**

The Gwynedd Council (Closure of the Unclassified Road known as Llwyn Hudol, Maesgeirchen, Bangor) (Temporary Prohibition of Through Traffic) Order 2018

**160/18 LICENSING MATTERS**

None.

**161/18 INVOICES FOR PAYMENT**

The invoices had been approved for payment as detailed on the schedule totalling £3,913.51. The invoices were available for any Member to see if necessary. **RESOLVED** that the payments be noted.

The Mayor wished all present the compliments of the Season and invited them to stay for refreshments.

---

The Meeting Finished at 8.05 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **Nos Lun 17 o Ragfyr 2018** am 6.30.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **PRESENNOL** :- | Ei deilyngdod y Maer, Cynghorydd John Wynn Jones | | | |
| | Y Dirprwy Faer, Cynghorydd John Wyn Williams | | | |
| | Y Cynghorwyr | G O Roberts (Is-Gadeirydd) | Ifan James | J M Martin |
| | | Les Day | Keith Jones | Gareth Roberts |
| | | Dylan Fearnley | Colin King | Elin Walker Jones |
| | | Derek Hainge | | |
| | Swyddog : | Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid | | |

**151/18 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Medwyn Hughes, Owen Hurcum, Enid Parry, Salik Rahman, Mair Rowlands, Luke Tugwell, a Huw Wyn Jones.

**152/18 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

**153/18 MATERION BRYS**

Dywedodd y Maer wrth y Pwyllgor am farwolaeth y cyn Gynghoyrdd a'r cyn Faer Geraint Huws Roberts. Safodd y Cynghorwyr mewn distawrwydd fel teyrnged i Mr Roberts.

(i) Gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol: Soniodd y Maer am lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Tref Caernarfon a oedd yn gofyn am gefnogaeth Cyngor y Ddinas i'w gais i wahodd Eisteddfod Genedlaethol 2021 i Gaernarfon. **PENDERFYNWYD**: fod Cyngor y Ddinas yn ysgrifennu llythyr o gefnogaeth.

(ii) Llongyfarchodd y Maer bawb a oedd wedi cymryd rhan mewn trefnu'r Ŵyl Fwyd Nadoligaidd ddydd Sul 16 Rhagfyr. Nodwyd nad oedd y Gymraeg i'w gweld yn ddigon amlwg yn yr hysbysebion.

(iii) Hysbysodd Clerc y Dref yr Aelodau fod tenantiaid llawr 1af ac 2il Swyddfeydd Cyngor y Ddinas wedi gadael yr eiddo er bod sawl mis ar ôl ar y cytundeb rhent.

(iv) Rhoddodd Clerc y Dref fanylion ynghylch pryd fyddai busnes Cyngor y Ddinas ar gau dros gyfnod y Nadolig.

(v) Canolfan Lôn Abaty: Derbyniwyd cais i'r mudiad gael mynychu Cyfarfod o'r Cyngor i roi cyflwyniad. Fodd bynnag, roedd y cais hwn wedi dod gan Reolwr y Ganolfan a oedd bellach wedi gadael. Byddai Clerc y Dref yn cysylltu â'r mudiad i weld a oedd yn dal yn dymuno dod i gyfarfod.

(vi) Adroddodd Clerc y Dref fod Cyngor Gwynedd wedi gofyn am estyniad i'r Cynllun Partneriaeth Toiledau Cyhoeddus am y ddwy flynedd nesaf gyda chyfraniadau'n cael eu talu'n flynyddol. **PENDERFYNWYD**: cytuno i'r trefniant hwn a gwneud darpariaeth yn y gyllideb dros y ddwy flynedd nesaf.

(vii) Mynegwyd pryder am ddiffyg Siop Un Stop ym Mangor a gofynnwyd i Glerc y Dref gofnodi nifer a natur yr ymholiadau roedd yn eu derbyn yn y swyddfa a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â Chyngor Gwynedd.

(Gadawodd y Cynghorydd Les Day y cyfarfod yn y fan hon)

**154/18 CYFLWYNIAD GAN SHARI LLYWELYN** – Cynhyrchydd Creadigol, Pontio

Roedd Shari wedi dod yn lle Elen ap Robert, Cyfarwyddwr Artistig Pontio, i wneud cyflwyniad i Gyngor y Ddinas.

Canolbwyntiodd Shari ar sut mae Pontio yn rhyngweithio â chymuned Bangor, myfyrwyr a chymunedau y tu allan i Fangor. Nod Pontio oedd ymgysylltu â'r holl drigolion a sefydliadau, yn enwedig addysg, celf, diwylliant, prosiectau a grwpiau gwrthgymdeithasol. Roedd y gwaith yn cynnwys plant ac ysgolion hefyd ac roedd yn gartref i ddigwyddiad poblogaidd iawn bob dwy flynedd - Gwledd y Syrcas.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i Shari am y cyflwyniad diddorol a defnyddiol.

**155/18 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**TUDALEN 35**

**C18/1044/11/AC** Rhyddhau amodau 3 a 4 ar ganiatâd rhif C18/0515/11/LL parthed gorffeniad arfaethedig i wyneb blaen yr adeilad a sgrin ar yr estyniad cefn 274 - 276 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad.**

**C18/1087/11/LL** Trosi a newid defnydd lloriau cyntaf ac ail yn 4 uned byw ynghyd â chreu blaen siopau newydd 196 -200 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad.**

**C18/1092/11/CR** Addasiadau mewnol ac allanol i greu 3 siop a 4 uned byw 196 -200 Stryd Fawr. **Dim gwrthwynebiad.**

**C18/1108/11/LL** Newid defnydd o swyddfa i salon harddwch ynghyd â newidiadau allanol. Yr Hen Efail, Ffordd Sackville. **Dim gwrthwynebiad.**

**C18/0953/11/CC** Gwaith i goed dan Orchymyn Diogelu Coed. 27 Bryn Adda. **Dim gwrthwynebiad.**

**156/18 CYFARFOD DELWEDD BANGOR**

Fel Cadeirydd y Grŵp, adroddodd y Maer ar weithgareddau a thrafodaethau cyfarfodydd diweddar:-

- Gwaith amgylcheddol ar y Stryd Fawr
- Warden Sbwriel yn cael ei ariannu gan Gyngor Gwynedd ar gyfer 2018/19
- Biniau Ailgylchu (yn cael eu hasesu gan Bwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd)
- Bangor Di-blastig
- 5 prosiect yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd, eraill ar y rhestr
- Cynrychiolaeth

**157/18 CYNLLUN DATBLYGU LLEOL GWYNEDD A MÔN )** Ymgynghori cyhoeddus Canllawiau Cynllunio Atodol

Adroddodd Clerc y Dref ar fanylion yr ymgynghoriad presennol. Gofynnwyd i'r Aelodau anfon unrhyw sylwadau i Glerc y Dref cyn y dyddiad cau fel ei fod yn gallu anfon ymateb ar ran Cyngor y Ddinas.

**158/18 TELEDU CYLCH CYFYNG**

Adroddodd Clerc y Dref fod Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno cynigion i newid y system CCTV o'r gyfres analog bresennol i gamerâu PTZ (*Pan, Tilt, Zoom*). Mae'r System yn 20 mlwydd oed ac angen ei diweddaru i gyflwyno technoleg newydd manylder uwch.

Yr anfantais fyddai cost flynyddol y system i Gyngor y Ddinas, ar hyn o bryd mae'n £12K: system a gynigir £42K. Mae Clerc y Dref wedi gofyn am fanylion cost-effeithiolrwydd y system newydd h.y. ystadegau i bob camera o ran cynorthwyo i atal a darganfod troseddau, fodd bynnag nid oedd manylion ar gael.

Roedd yr Aelodau'n pryderu am y costau uwch a holwyd a oedd ffyrdd eraill o gynorthwyo'r Heddlu a gwarchod y cyhoedd.

**PENDERFYNWYD**: i) caniatáu codi'r gyllideb ychydig ond ddim i dalu am y cynigion; a ii) gwahodd y Rheolwr Gweithrediadau yn Uned Gwaith Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd i gyfarfod yn y Flwyddyn Newydd i drafod y manylion.

**159/18 MATERION PRIFFYRDD**

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau'r Ffordd Ddi-Ddosbarth a adwaenir fel Llwyn Hudol, Maesgeirchen, Bangor) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2018

**160/18 MATERION TRWYDDEDU**

Dim.

**161/18 ANFONEBAU I'W TALU**

Roedd yr anfonebau wedi'u cymeradwyo i'w talu fel ag ar y rhestr yn rhoi cyfanswm o £3,913.51. Roedd yr anfonebau ar gael i unrhyw Aelod eu gweld os oedd angen. **PENDERFYNWYD** nodi'r taliadau.

Dymunodd y Maer Nadolig Llawen i bawb ac fe'u gwahoddwyd i aros i gael lluniaeth

---

Daeth y Cyfarfod i Ben am 8.05 p.m.